

ASTUDIAETH ACHOS

Atgyfeiriwyd y teulu at **Brosiect Ymyriad ac Ataliad Teuluol** gan gymdeithas dai leol. Y rheswm dros yr atgyfeiriad oedd bod y teulu mewn peryg o gael eu taflu allan oherwydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Roedd y teulu wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig oherwydd anghydfod gyda chymydog, sŵn yn aflonyddu, problemau magu plant, cynnal a chadw'r ardd ac roedd y cartref mewn cyflwr difrifol.

Roedd hefyd ffactorau risg yn ymwneud ag aelodau o'r teulu. Roedd y rhain yn broblemau lechyd Meddwl / anawsterau dysgu, a materion emosiynol ac ymddygiadol. Prin oedd y gefnogaeth gan asiantaethau a doedd dim trefn na ffiniau o fewn y cartref.

Pan wnaethon ni ymgymryd ag asesiad cychwynnol o'r teulu, cafodd sawl profiad plentyndod andwyol ei ddatgelu. Dyma oedd y rhai hynny:-

- Camdriniaeth gorfforol, rywiol ac emosiynol
- Esgeulustod
- Trais teuluol yn y cartref
- Trais yn y cartref rhwng y rhieni
- Treulio amser yng ngofal yr awdurdod lleol
- Y rheini'n ymwahanu

Cynigiwyd sawl math o gymorth i'r teulu, ond ni parhaodd yr ymgysylltu. Roedden nhw'n swrth ac yn ymddangos yn analluog i wneud newidiadau cynaliadwy.

Dyma oedd cynnwys y teulu:-

- LS – mam – 51 oed
- CS – mab – 22 oed
- DS – mab – 19 oed
- JS – 17 oed

Y peryg mwyaf uniongyrchol yn yr eiddo hwn oedd yr amodau byw gwael. Roedd y teulu'n byw dan amodau mor ddifrifol fel nad oedd unrhyw le ar yr wyneb nag ar y llawr i'w weld. Roedd gwely dwbl yn y lolfa nad oedd modd ei weld oherwydd yr holl sbwriel a'r dillad. Roedd pob wyneb wedi'i orchuddio â budreddi. Roedd dwy gath ac un ci yn yr eiddo. Roedd gan bob un o'r anifeiliaid chwain ac roedd y tŷ dan bla ohonyn nhw.

Wedi adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r teulu a hwythau'n teimlo y gallen nhw siarad yn agored â ni, daeth y rhesymau am gyflwr y cartref fwyfwy i'r amlwg.

Tra'n byw gyda'i chynbartner, doedd LS ddim yn cael glanhau heb gael ei churo, felly am flynyddoedd lawer, wnaeth hi ddim glanhau. Fe drodd hyn yn gasglu eiddo pan adawodd ei phartner, fel modd i LS allu cydio mewn rhyw fath o reolaeth. Fel canlyniad, tyfodd y plant wedi'u gwreiddio yn ymddygiad eu mam ac felly doeddwn nhw 'chwaith ddim yn glanhau. Roedd yr amodau mor afiach fel y gorfodwyd cyflogi cwmni glanhau arbenigol i wagu a glanhau'r holl eiddo. Wrth i hyn oll ddigwydd, cychwynnodd y gwaith gyda'r teulu o geisio newid yr ymddygiadau oedd wedi'u sefydlu'n ddwfn o'u mewn. Anfonwyd cymorth dyddiol i'r tŷ i sefydlu arferion a rotâu glanhau. Roedd hyn yn anodd gan fod gan LS anawsterau corfforol ac mae gan y meibion anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, gyda'r dwyster mae FIP yn gallu'i gynnig dros nifer o fisoedd, daeth eu harferion a'u rotâu newydd yn fwyfwy rheolaidd. DS oedd y symbylydd, yn ddyddiol yn annog ei deulu i lanhau. Gweithiodd FIP ar arferion casglu LS. Fe'i hanogwyd i gael gwared ag un neu ddwy eitem pob dydd hyd nes ei bod yn ddigon cryf i allu gwaredu mwy o eitemau. Cafodd yr anifeiliaid weld milfeddyg a rhoddwyd triniaeth reolaidd am chwain ar waith. Cafodd y ci ei ailgartrefu gan nad oedd y teulu'n gallu cyfarfod ag anghenion y ci. Bellach, mae amodau'r cartref wedi gwella'n sylweddol ac yn cael eu cadw i safon foddhaol. Roedd yr ardd yn llawn sbwriel a gordyfiant ymhob man. Gweithiodd y bechgyn yn y tŷ ochr yn ochr â FIP i dacluso a glanhau'r ardd. Fe gawson nhw gymorth i gynnal yr ardd dros gyfnod o amser hyd nes y daeth hyn hefyd yn beth rheolaidd iddyn nhw'i wneud.

Cafwyd sawl cwyn gan gymdogion. Roedd eu cymydog agos wedi honni clywed gweiddi uchel parhaus, dadlau, sain teledu a radio uchel, a hynny'n aml yn

waeth gyda'r nos. Aeth FIP i ymweld â'r cymydog hwn, gan adeiladu perthynas o gydweithio gyda hi. Ar y cychwyn, roedd hi'n flin iawn, yn emosiynol ac "ar ben ei thennyn". Dros y misoedd a ddilynodd, fe welodd bod gwelliannau'n digwydd a daeth i fod yn fwy goddefgar tuag at y teulu. Roedd hi'n gwybod ei bod hi'n gallu siarad â ni a chael esboniadau gonest gynnon ni. Er na siaradodd eto gyda'r teulu, cadwodd y cwynion i'r lleiaf.

Tra'n gweithio gyda'r cymydog, roedd gwaith hefyd yn cael ei gwblhau ar gydb berthnasau a gwelliannau / dyheadau personol yn y cartref. Bu trais teuluol yn y cartref rhwng y brodyr. Roedden nhw'n ymosodol yn eiriol ac roedd eu tymer tuag at ei gilydd yn aml yn anwadal iawn. Doedd y teulu ddim wedi derbyn unrhyw gymorth i ddelio â'r blynyddoedd o drais roedden nhw wedi'i ddiodef. Roedd pob un o'r plant wedi bod yn dystion i drais yn y cartref rhwng eu rhieni. Atgyfeiriwyd LS a CS am therapi gwybyddol ymddygiadol ac fe wnaethon nhw fynychu. Cynhaliwyd sesiynau penodol un ac un gyda DS a JS.

Canlyniadau hyn oedd gweld y cydberthnasau o fewn y cartref yn gwella'n arw gyda thrais corfforol a ffraeo yn lleihau'n sylweddol. Mae JS bellach yn mynychu coleg yn fwy rheolaidd. Mae DS wedi symud i fyw gyda'i chwaer ac mewn gwaith. Mae CS yn gweithio. Mae yntau mewn perthynas ac yn chwilio am gyfle i symud i'w lety ei hun.

Mae'r teulu'n byw mewn lleoliad anghysbell heb unrhyw gyfleusterau'n agos. Mae hyn yn gosod pwysedd ychwanegol ar y teulu gan nad oes modd iddyn nhw gerdded unrhyw le i ymuno â grwpiau neu weithgareddau allanol. Does dim hyd yn oed siop leoli gerdded iddi. Mae'r teulu ar hyn o bryd wedi rhoi cynigion ar eiddo mewn ardal wahanol. Bydd JS a LS yn symud i ardal lle gallen nhw gael mynediad i gyfleusterau lleol ac fe fydd hi'n haws i JS gyrraedd y coleg. Bydd cymorth tenantiaeth ar gael iddyn nhw pan fydden nhw'n symud. Mae gwir angen dechrau newydd ar y teulu a bellach maen nhw'n barod i wneud y symudiad hwnnw.